# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 16 Chwefror 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi y cyflwynwyd y cwestiwn yn Gymraeg.**

**( Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau )**

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

1. **Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd yn ddiweddar ynghylch posibilrwydd diwygio Fformiwla Barnett neu osod fformiwla cyllido newydd yn ei le. (OAQ3580) [W]
2. **David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth ynghylch y bwriad i ariannu taliadau archwilio hylendid llaeth. (OAQ3554) **TYNNWYD YN OL**
3. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddarparu arian o gyllideb y Cynulliad i ostwng lefel trethi cyngor yng Nghymru. (OAQ3571)
4. **David Melding (Canol De Cymru);** A fydd y weinyddiaeth yn comisiynu ymchwil i ddiwygio fformwla Barnett a'r effeithiau a gaiff hynny ar y grant bloc. (OAQ3561)
5. **Alison Halford (Delyn);** Beth yw cost rhedeg y swyddfa ffïoedd. (OAQ3572) [R]
6. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Os daw mwy o arian ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol, a fydd hi'n ystyried cynyddu'r cyllid i lywodraeth leol. (OAQ3573) [W]
7. **Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A oes ganddi gynlluniau i sicrhau na chaiff cyllidebau a neilltuwyd yn benodol ar gyfer meysydd fel iechyd eu defnyddio at ddibenion ymylol fel adeiladu ffyrdd yn arwain at ysbytai. (OAQ3565)
8. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** A yw'n fodlon gwneud datganiad ar ba mor ddymunol fyddai diwygio fformwla Barnett. (OAQ3532)
9. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif diweddaraf o gost adeilad newydd y Cynulliad. (OAQ3570)
10. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'n bwriadu'u cymryd i sicrhau bod contractau sy'n ymwneud â'r Fenter Cyllid Preifat yn briodol a thryloyw. (OAQ3605)
11. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff hi ymchwilio a fyddai fformwla ariannu sy'n seiliedig ar asesiad mwy diweddar o anghenion yn dod â mwy o adnoddau i'r Bloc Cymreig na'r fformwla Barnett presennol (OAQ3584)
12. **Brian Hancock (Islwyn):** A wnaiff hi ddweud yn fras sut mae contractau Cyllid Preifat

tymor hir yn effeithio ar flaenoriaethau eraill gwariant cyhoeddus. (OAQ3602)

13. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff hi roi addewid y bydd cynlluniau'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru yn parhau i gael eu monitro a'u gwerthuso ar sail meini prawf sy'n dderbyniol i'r Cynulliad. (OAQ3601)
14. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff hi ddweud pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod archwiliad amgylcheddol yn cael ei gynnal o holl gynlluniau'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru. (OAQ3607)
15. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff hi ddatganiad ar y trafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda swyddogion y Trysorlys ynghylch unrhyw arian ychwanegol newydd i gyfateb i arian Amcan 1. (OAQ3609)
16. **Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff hi ddweud pa waith ymchwil y mae hi wedi'i gomisiynu i ddulliau heblaw'r Cynllun Cyllid Preifat i ariannu contractau cyhoeddus. (OAQ3604)
17. **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff hi ddatgelu pam penderfynodd y weinyddiaeth wrthod y dewis o ariannu'r gwaith o godi adeilad newydd y Cynulliad trwy'r Fenter Cyllid Preifat. (OAQ3562)
18. **Peter Rogers (Gogledd Cymru):** Pa ymateb y mae hi wedi'i gael gan yr Ysgrifennydd dros Addysg cyn 16 oed ynghylch cyllideb 2000-2001 (OAQ3608)
19. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff ddatganiad ar ei thrafodaethau gyda'r Trysorlys parthed sicrhau arian newydd ychwanegol i Floc Barnett (OAQ3548)
20. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa adnoddau ychwanegol allai fod ar gael i gynyddu'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol yn 2000/01. (OAQ3551) [R]
21. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** A fydd hi'n gallu gwella'r drefn ar gyfer pennu'r gyllideb yn y dyfodol. (OAQ3610)
22. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff ddweud beth fydd effaith tymor hir contractau'r Fenter Cyllid Preifat ar hyblygrwydd gwariant cyhoeddus. (OAQ3606)
23. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gyfleoedd fydd ar gael iddi gynyddu cyfanswm y gyfran o gyllideb y Cynulliad sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y setliad llywodraeth leol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. (OAQ3553) [R]
24. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff ddweud am unrhyw waith ymchwil sydd ar y gweill i ddulliau eraill heblaw'r Fenter Cyllid Preifat. (OAQ3605)
25. **Elin Jones (Ceredigion):** Pa sicrwydd all hi ei roi bod egwyddorion ymgynghori â'r cyhoedd, atebolrwydd, tryloywder, cyfranogaeth y gymuned a'r gweithlu, ansawdd a gwerth am arian yn rhan o gynlluniau'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru (OAQ3600)
26. **David Davies (Mynwy):** A fydd hi'n chwilio am arian ychwanegol o San Steffan i ategu'r Grant Cynnal Cefn Gwlad mewn ardaloedd gwledig. (OAQ3555)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

1. **Dafydd Wigley (Caernarfon)** A wnaiff ddatganiad ynghylch rôl gyfredol Partneriaethau Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn nhrafodaethau Amcan 1 (OAQ3591)
2. **Lynne Neagle (Tor-faen)** Beth yw’r targedau rhanbarthol o fewn Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru ddenu mewnfuddsoddi (OAQ3563)
3. **Richard Edwards (Preseli Penfro)** Pa gynlluniau sydd ganddo i hybu cyfleoedd gwaith dinasyddion anabl Cymru (OAQ3566)
4. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)** A wnaiff adolygu’i argymhelliad i eithrio De Ddwyrain Powys o fap Amcan 2 (OAQ3534)
5. **Jane Davidson (Pontypridd)** A all roi manylion sut y gall y Cynulliad gefnogi’r cwmnïau Cymreig hynny sy’n cyflenwi Marks & Spencer (OAQ 3585)
6. **Michael German (Dwyrain De Cymru)** Pa gynlluniau sydd ganddo i gwrdd â chynrychiolwyr y CBI yn y dyfodol agos (OAQ3579) (W)
7. **William Graham (Dwyrain De Cymru)** A wnaiff ddatganiad ar hynt ei drafodaethau gyda’r DTI a’r Undeb Ewropeaidd o ran y map o Ardaloedd Dewisol Rhanbarthol (OAQ3613)
8. **Mick Bates (Maldwyn)** Pa gamau mae’n bwriadu eu cymryd i hybu gwerthu nwyddau o Gymru dramor (OAQ3577) (R) (W)
9. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru)** Beth fydd y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer cymeradwyo project Amcan 1 (OAQ3590)
10. **Michael German (Dwyrain De Cymru)** Faint o Gyllid Strwythurol Ewopeaidd a glustnodwyd hyd at 31 Rhagfyr 1999 yng Nghymru fydd angen eu talu trwy arian Ewrop ac arian cyfatebol yn 2000 a 2001 (OAQ3546)
11. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)** Pa drefniadau sydd wedi’u gwneud i sicrhau fod y cyrff sy’n cynrychioli buddiannau Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn cael cymryd rhan yn ystod y cyfnod tyngedfennol o drafod a pharatoi ar gyfer cychwyn Amcan 1 (OAQ3595)
12. **Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** A all roi gwybodaeth i’r Cynulliad ynghylch hynt y trafodaethau ar reoli ansawdd dwr Bae Caerdydd yn y dyfodol (OAQ3557) (R)
13. **Richard Edwards (Preseli Penfro)** Pa gynlluniau sydd ganddo i hybu twristiaeth yng Ngorllewin Cymru (OAQ3567)
14. **Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** Ar ba sail y mae swyddogaethau masnachu tramor y WDA yn cael eu diddymu, o gofio fod y swyddogaethau hynny yn rhan o gynllun strategol yr Awdurdod (OAQ3558)
15. **Elin Jones (Ceredigion)** A wnaiff ddisgrifio’n fras unrhyw gyfarfodydd sydd wedi’u cynnal gyda Phartneriaeth Gorllewin Cymru a’r Cymoedd ers cyflwyno’r Ddogfen Raglennu Sengl i Frwsel (OAQ3597)
16. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** A all egluro’r fecanwaith a ddefnyddiwyd i gyfeirio penderfyniadau pwysig ynghylch y broses Amcan 1 i bartneriaeth go iawn ers diddymu’r Tasglu fis Hydref diwethaf (OAQ3594)
17. **Geraint Davies (Rhondda)** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd i gyflwyno cymorth gweithredol i Gymoedd De Cymru (OAQ3583)
18. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** A wnaiff hybu Barcutnod

Rhagoriaeth Gymreig ar gyfer cynnyrch Cymreig (OAQ3568)

19. **Alison Halford (Delyn)** Pa gymorth gall y Cynulliad ei roi i fusnesau bach allu cymryd mantais o'r post electronig a'r rhyngrwyd (OAQ3552)
20. **David Melding (Canol De Cymru)** A oes iawndal neu arian arall ar gael i ardaloedd Cymru sydd wedi colli arian Amcan 2 2000-2006 (OAQ3559)
21. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau ar gyfer mentrau pellach i annog mewnfuddsoddi yng Nghymru. (OAQ3598)
22. **Geraint Davies (Rhondda);** Pa gynigion sydd gan yr Ysgrifennydd i ddatblygu'r Economi Gymdeithasol yng nghymoedd y De. (OAQ3582)
23. **Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pryd fydd y sectorau preifat/cyhoeddus a gwirfoddol yn cael eu hannog i gyflwyno bidiau ar gyfer arian Amcan 1. (OAQ3612)
24. **David Melding (Canol De Cymru);** A fyddai'n gwneud datganiad ar ba rannau o Gymru fydd yn elwa o'r Cynllun Cymuned Drefol. (OAQ3560)
25. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw wedi derbyn unrhyw gyflwyniadau gan fyd busnes ar y syniad y dylai Awdurdod Datblygu Cymru fabwysiadu swyddogaethau menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter. (OAQ3611)
26. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff roi adroddiad byr ar ba lwyddiant y mae wedi'i gael o ran diogelu swyddi newydd i gymryd lle'r rhai hynny a gollwyd neu y disgwylir eu colli yn ffatrïoedd Bairdswear. (OAQ3588)
27. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa asesiad a wnaethpwyd o lwyddiant Awdurdod Datblygu Cymru wrth hybu datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig er pan ddiddymwyd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. (OAQ3574) [W]
28. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw'n fodlon gwneud datganiad ar nifer ac ansawdd yr ymholiadau a/neu geisiadau y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â chymorth cronfeydd strwythurol Ewrop. (OAQ3549)
29. **Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pryd fydd y sectorau preifat/cyhoeddus a gwirfoddol yn cael eu hannog i gyflwyno bidiau ar gyfer arian amcan 1. (OAQ3614)
30. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gamau a gymerwyd hyd yn hyn i roi gwybodaeth i grwpiau cymunedol a busnesau bach am y cyfleoedd ar gyfer prosiectau yn defnyddio arian Amcan Un. (OAQ3576) [W]